

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Diwygiedig 2018-2033

Cynllun Datblygu Lleol

Methodoleg Asesu Safleoedd



Medi 2022

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council



Methodoleg Asesu Safleoedd - Medi 2022

Cynnwys

1. Rhagarweiniad	2
2. Y Broses a'r Fethodoleg ar gyfer Safleoedd Ymgeisiol	4
Siart Ilif	5
Gwahodd Safleoedd Ymgeisiol	6
Yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI)	6
3. Cam 1 - Asesiad Cychwynol o'r Safleoedd	8
4. Cam 2 - Asesiad Manwl o'r Safleoedd	9
Cam 2a - Y Gallu i Gyflenwi'r Safle a Chyfyngiadau Sylfaenol	10
Cam 2b Dadansoddiad Manwl Pellach o Safleoedd	13
5. Cam 3 - Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd..	22
6. Defnyddiau Tir Eraill	23
Cynigion Cyflogaeth a chynigion Defnydd Cymysg	23
Cynigion Manwerthu	23
Cynigion Cyfleusterau Cymunedol	23
Cynigion Mwynau a Gwastraff	23
Safleoedd i'w gwarchod rhag Datblygu	24
Grŵp Swyddogion Technegol	24
7. Beth fydd yn digwydd nesaf?	25
Archwilio'r CDLI	25
Gwybodaeth Bellach	25

1. Rhagarweiniad

1.1. Y ddogfen hon yw trydydd argraffiad y Fethodoleg Asesu Safleoedd (MAS) sydd yn disgrifio'r fethodoleg a'r broses asesu a ffafrir er mwyn ystyried tir i'w ddatblygu yn y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig 2018-2033 (CDLI diwygiedig). Wrth wneud hynny mae'n nodi'r egwyddorion arweiniol ar gyfer dewis safleoedd newydd posibl i'w dyrannu, sy'n gyson â pholisi cynllunio cenedlaethol ac egwyddorion datblygu cynaliadwy. Defnyddir y ddogfen yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth i gefnogi ymagwedd y Cyngor at gynnwys neu hepgor safleoedd i'w datblygu yn y CDLI diwygiedig.

1.2 Datblygwyd y fethodoleg hon i adlewyrchu Polisi Cynllunio Cenedlaethol a darpariaethau deddfwriaethol. Dylid clustnodi safleoedd ar sail asesiad cadarn a chredadwy o addasrwydd ac argaeledd tir at ddibenion penodol neu gyfuniad o ddibenion, a'r tebygolrwydd y caiff ei ddatblygu. Bydd y gallu i gyflenwi safleoedd yn rhan bwysig o'r fethodoleg ac yn hanfodol er mwyn nodi safleoedd i'w cynnwys yn y CDLI diwygiedig.

1.3 Ceir gofyniad hefyd i gynnal Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) yn ogystal ag Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) yn rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLI diwygiedig. Y bwriad yw cyfuno proses AC â'r gofynion ar gyfer AAS yn un broses arfarnu, ochr yn ochr â'r gofynion o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20, ac ystyriaethau o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017. Cyfeirir at y broses hon fel *Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI)*, a'i nod yw darparu asesiad mwy tryloyw, cyfannol, a chwmpasog o oblygiadau cynaliadwyedd yr opsiynau twf, amcanion, polisïau, cynigion, a dyraniadau a gynhwysir yn y CDLI diwygiedig. Hefyd, bydd angen i'r Cyngor greu CDLI na fydd yn cael unrhyw effaith sylweddol (ar ei ben ei hun nac mewn cyfuniad) ar yr adnodd Safleoedd Ewropeaidd (Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd - ARhC) wrth ei weithredu. Yn hyn o beth, bydd angen i'r cynigion datblygol hynny (gan gynnwys dewis safleoedd) gael eu llywio gan adolygiad iterus yn erbyn y cyfryw fframweithiau wrth i'r broses o greu cynllun fynd rhagddi tuag at y cam adneuo.

1.4 Yn argraffiad cyntaf y Fethodoleg Asesu Safleoedd (MAS), nodwyd y fframwaith a'r llinellau amser ar gyfer asesu safleoedd drwy'r broses CDLI, gyda phwyslais arbennig ar wahodd safleoedd ymgeisiol. Cyhoeddwyd yr ail argraffiad ar y cyd â'r ymgynghoriad ar y CDLI Adneuo cyntaf ym mis Ionawr 2020, a nododd y safleoedd yr oedd y Cyngor yn bwriadu eu gweithredu yn ystod cyfnod y CDLI Diwygiedig. Mae'r trydydd argraffiad hwn yn rhoi golwg

gyfredol o'r camau a gynhaliwyd hyd yma, gan nodi'r fethodoleg ar gyfer asesu safleoedd hyd at gyhoeddi'r ail GDLI Adneuo ddechrau 2023.

1.5 Lle bo'n briodol, bydd yr holl ffactorau hyn yn cael eu trafod drwy ymgynghori â chyrrff ymgynghori penodol wrth werthuso safleoedd, tra bydd yn ofynnol i hyrwyddwyr tir ddarparu lefel briodol o fanylion fel bo modd rhoi ystyriaeth lawn i'r safleoedd.

2. Y Broses a'r Fethodoleg ar gyfer Safleoedd Ymgeisiol

2.1 Mae'r Cyngor yn cynnig proses tri cham fel methodoleg ar gyfer asesu safleoedd ymgeisiol.

- **Cam 1** yw asesiad lefel uchel er mwyn canfod a yw pob Safle Ymgeisiol yn cyd-fynd â lleoliad twf yn y dyfodol, fel y cyflwynwyd hynny yn y Strategaeth a Ffafrir.
- Yng **Ngham 2a** ceisir nodi safleoedd y ceir cyfyngiadau sylfaenol arnynt na ellir eu goresgyn na'u lliniaru. Mae'r rhain yn cynnwys safleoedd sydd oddi mewn i ardaloedd a ddynodwyd am eu bod yn bwysig er cadwraeth natur, treftadaeth ddiwylliannol neu ym mharthau perygl llifogydd TAN 15, neu sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar yr ardaloedd hynny. Ni fydd y safleoedd hyn yn symud ymlaen i'r cam nesaf. Yn ogystal â hynny, bydd safleoedd na ystyrir eu bod yn gallu cynnwys pump neu fwy o anheddau, yn cael eu hystyried ymhellach o dan y lwfans safleoedd bychain a nodwyd yn y Cynllun.
- Asesiad manwl safle-benodol yw **Cam 2b** ac mae'n cynnwys dadansoddiad o gynaliadwyedd y safle, ei hyfywedd a'r tebygolrwydd y datblygir arno dros gyfnod y cynllun. Yn y cam hwn, bydd AC/AAS yn cael ei gynnal i asesu pob safle fel 'opsiynau eraill rhesymol' yn erbyn Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Ni ystyrir bod y safleoedd hynny a gaiff eu hepgor yng Ngham 2a yn 'rhesymol' gan fod cyfyngiadau sylfaenol arnynt a fyddai'n golygu nad oes modd eu cyflenwi. Gan hynny, ni chynhelir ACI arnynt.
- Yng **Ngham 3** asesir y safleoedd hynny a aeth rhagddynt drwy'r holl gamau blaenorol, ac sydd i'w cynnwys yn Ail GDLI Adneuo y Cyngor. Yn y cam hwn, bydd ARhC yn cael ei gynnal ar bob safle er mwyn sicrhau na fydd y cynllun Adneuo yn cael unrhyw effaith o bwys (ar ei ben ei hun nac mewn cyfuniad) ar Safleoedd Ewropeaidd Dynodedig.

Methodoleg Asesu Safleoedd Medi 2022

Cam 1

Asesiad Cychwynnol o'r Safle

A yw'r safle ymgeisio yn cydymffurfio gyda lleoliad twf ar gyfer y dyfodol fel y cyflwynwyd yn y Strategaeth a Ffefrir?

Rhagfyr
2018

Ydy

Safle yn symud
ymlaen
i Gam 2a

Nac ydy

Ni ystyrir fod y safle
yn gymwys a ni fydd
y safle yn symud
ymlaen o Gam 1

Cam 2a Y gallu i Gyflewnir Safle a Chyfyngiadau Sylfaenol

A yw'r safle yn cydymffurfio gyda'r cwestiynau a osodwyd allan o fewn Cam 2a?

Ydy

Safle yn symud
ymlaen
i Gam 2b

Nac ydy

Ni ystyrir fod y safle
yn gymwys a ni fydd
y safle yn symud
ymlaen o Gam 2a

Cam 2b Dadansoddiad Manwl Pellach o Safleoedd

A yw'r safle ymgeisio yn cydymffurfio gyda'r egwyddorion cynllunio canlynol?

- Egwyddorion Cynllunio Cyffredinol
- Hygyrchedd
- Ystyriaethau Amgylcheddol
- Seilwaith a Chyfleustodau
- Y Gymraeg
- Hyfywedd ac Ymarferoldeb

Ydy

Safle yn symud
ymlaen
i Gam 3

Nac ydy

Ni ystyrir fod y safle
yn gymwys a ni fydd
y safle yn symud
ymlaen o Gam 2b

Cam 3 ACI Fe fydd y Safle yn Destun i Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

Gwahodd Safleoedd Ymgeisiol

2.2 Rhwng 5 Chwefror a 29 Awst 2018, cynhaliodd y Cyngor Alwad am Safleoedd Ymgeisiol, lle cafodd tiffeddianwyr, datblygwyr, aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill gyfle i gyflwyno safleoedd i'w cynnwys, neu i'w gwarchod rhag datblygu arnynt yn rhan o'r CDLI diwygiedig. Roedd y fethodoleg wreiddiol ar gyfer asesu safleoedd yn cynnwys rhestr o gwestiynau i'w defnyddio'n sail ar gyfer safleoedd y cynigwyr.

2.3 Derbyniwyd cyfanswm o 926 o gyflwyniadau safle ymgeisiol ar gyfer ystod o ddefnyddiau, a oedd yn cynnwys defnydd preswyl, cyflogaeth, defnydd cymysg a hamdden, yn ogystal â safleoedd i'w gwarchod rhag datblygu arnynt. O ganlyniad i'r cyflwyniadau hyn cynhaliwyd ymarfer ymgynghori rhwng 12 Rhagfyr 2018 ac 8 Chwefror 2019 er mwyn rhoi cyfle i bartïon â buddiant gynnig sylwadau ar y safleoedd a gyflwynwyd.

Yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI)

2.4 Mae'r ACI yn gyfrifol am werthuso ac ystyried sawl 'opsiwn rhesymol' yn erbyn y Fframwaith ACI. Mae hyn yn cynnwys gwerthuso safleoedd a ystyrir yn opsiynau eraill 'rhesymol', yn yr ystyr eu bod yn gyflawnadwy ac nad oes unrhyw gyfyngiadau sylfaenol arnynt. Ystyrir bod yr holl safleoedd sy'n mynd rhagddynt drwy Gam 2a yr asesiad hwn yn opsiynau rhesymol, a bydd ACI yn cael eu cynnal arnynt.

2.5 Penderfynwyd y byddai'r ACI yn cael ei integreiddio i'r MAS drwy ddefnyddio'r wybodaeth safle-benodol a gasglwyd yng Nghamau 1 a 2 i bennu cynaliadwyedd safleoedd yn erbyn y Fframwaith ACI. Mae'r cwestiynau ar gyfer penderfynu yn y MAS yn cynnig dull mesuradwy a mwy deallus o asesu cynaliadwyedd na'r Amcanion ACI yn unig. Cafodd y cwestiynau yng Nghamau 1 a 2 eu hadolygu er mwyn ystyried i ba raddau y maent yn gydnaws â phob un o'r amcanion ACI. Lle na chafwyd ond ymdriniaeth rannol neu anghyflawn â'r amcanion ACI, cafodd cwestiynau'r MAS eu haddasu neu ychwanegwyd cwestiynau newydd. Cafodd cwestiynau eu croesgyfeirio er mwyn gwirio eu cydnawsedd â'r Amcanion ACI drwy'r holl ddogfen hon.

2.6 Mae'r atebion i'r cwestiynau gwneud penderfyniad yn y canlyniad MAS yn arwain at 'sgôr' cynaliadwyedd yn erbyn pob un o Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, ac yn unol â'r allwedd a welir yn Nhabl 1. Pan ragwelir effeithiau cymysg neu negyddol, dylid nodi mesurau lliniaru a allai wella perfformiad yr opsiwn yn erbyn yr Amcanion ACI.

Tabl 1 Meini prawf asesu'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer safleoedd ymgeisio, fel yr addaswyd o Lawlyfr Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru Rhifyn 3 (2020).

Symbol	Effaith a ragwelir a chamau a awgrymir
++	Effaith gadarnhaol iawn – mae'r safle arfaethedig yn cydymffurfio i raddau helaeth ag Amcan ACI.
+	Effaith gadarnhaol – mae'r safle arfaethedig yn cydymffurfio ag Amcan ACI. Ystyried a ellir gwella'r effaith gadarnhaol ymhellach drwy bolisiâu perthnasol.
+/-	Effeithiau cadarnhaol a negyddol - mae'r safle a gynigir yn cydymffurfio â rhai elfennau o'r Amcan ACI ac yn rhwystro elfennau eraill. Ystyried lliniaru'r effeithiau negyddol
-	Effaith negyddol - mae'r safle arfaethedig yn gwrthdaro ag Amcan ACI. Mae'n bosibl bod y safle'n amhriodol i'w ddatblygu. Ystyried camau lliniaru.
--	Effaith negyddol iawn – mae'r safle arfaethedig yn gwrthdaro'n sylweddol ag Amcan ACI. Mae'n bosibl bod y safle'n amhriodol i'w ddatblygu. Ystyried camau lliniaru sylweddol
0	Effaith niwtral o gymharu â'r sefyllfa bresennol. Ystyried a allai ymyrraeth polisi roi bod i effeithiau cadarnhaol.

2.7 Yn ogystal ag integreiddio'r ACI i'r cwestiynau safle-benodol a geir yng Nghamau 1 a 2, rhoddwyd ystyriaeth gychwynnol i asesu a fydd y math o ddatblygiad yn cael dylanwad ar yr Amcanion ASI.

Cysylltiad ag Amcan ACI:

ISA10 – Poblogaeth (Tai); ISA10 – Poblogaeth, ISA11 – Y Gymraeg, ISA12 – Iechyd a Llesiant, ISA13 – Addysg a Sgiliau, ISA15 – Gwead Cymdeithasol (Cyfleusterau Cymunedol); ISA14 – Economi (Cyflogaeth a Manwerthu); ISA6 – Asedau o Bwys (Mwynau a Thirlenwi) (Gwastraff arall a Ailgylchir); ISA1 – Datblygu Cynaliadwy; ISA10 – Poblogaeth; ISA14 – Yr Economi; ISA15 – Gwead Cymdeithasol (Defnyddiau Cymysg / Safle Strategol); ISA10 – Poblogaeth, ISA15 – Gwead Cymdeithasol (Safle Sipsiwn a Theithwyr); ISA1 – Datblygu Cynaliadwy, ISA4 – Ffactorau'n Ymwneud â'r Hinsawdd; ISA6 - Asedau o Bwys (Ynni Adnewyddadwy).

3. Cam 1 - Aseiad Cychwynnol o'r Safleoedd

3.1 Cyn ymgynghori ar y safleoedd ymgeisiol ym mis Rhagfyr 2018, cynhaliodd y Cyngor aseiad lefel uchel o'r safleoedd er mwyn nodi a oeddent yn gyson â nodau ac amcanion strategol Strategaeth a Ffafir y CDLI diwygiedig ai peidio. Cyhoeddwyd canlyniadau'r Cam hwn drwy'r Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol¹.

C1. A yw'r safle'n gydnaws â lleoliad twf y dyfodol a gyflwynir yn y Strategaeth a Ffafir.

Cysylltiad ag Amcan ACI: ISA1 – Datblygu Cynaliadwy

3.2 Cyflwynwyd canlyniadau'r aseiad hwn yn seiliedig ar y system goleuadau traffig canlynol:



Bydd safleoedd a amlygwyd yn wyrdd ar y tabl asesu cychwynnol yn mynd rhagddynt i dderbyn aseiad pellach manylach yn rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLI Adneuo.



Ystyriwyd y safleoedd hyn yn erbyn y fethodoleg asesu safleoedd wrth fynd ati i baratoi'r Cynllun. Efallai y bydd y safle yn cydymffurfio â darpariaethau'r Strategaeth a Ffafir, ond ni fydd yn cael ei ystyried yn ddefnydd tir wedi'i ddyrannu gan y bydd yn seiliedig ar feini prawf polisi a gyhoeddir yn rhan o'r CDLI Adneuo.



Nid oedd y safle yn cydymffurfio â darpariaethau'r Strategaeth a Ffafir gan nad oedd yn rhan o'r anheddiad a byddai'n arwain at ddatblygu mewn ardal o gefn gwlad agored. Ni chafodd y safleoedd a nodwyd yn goch eu hystyried ymhellach yn rhan o'r Ail GDLI Adneuo.

3.3 Mae'r safleoedd ymgeisiol a nodwyd yn wyrdd yn yr aseiad cychwynnol ym mis Rhagfyr 2018 bellach wedi'u cynnwys yng nghramau dilynol y fethodoleg hon.

3.4 Ni chaiff safleoedd a nodwyd yn ambr fynd rhagddynt o fewn y broses asesu safleoedd, ond bydd y defnydd tir a ystyrir wrth eu cyflwyno yn destun polisiau cynllunio a'r meini prawf ar eu cyfer wedi'u nodi yn yr Ail GDLI diwygiedig Adneuo.

¹ <https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1217108/candidate-site-register-paper-002.pdf>

4. Cam 2 - Aseiad Manwl o'r Safleoedd

4.1 Ail gam y MAS yw rhoi ystyriaeth bellach i'r safleoedd hynny y tybir eu bod yn gydnaws â darpariaethau Strategaeth a Ffafir y CDLI diwygiedig - sef y rhai a amlygwyd yn wyrdd yn rhan o'r aseiad cychwynol o safleoedd ymgeisiol yn aseiad Cam 1.

4.2 Bydd yr ail gam hwn yn llywio cynnwys yr Ail GDLI diwygiedig Adneuo, a'r canlyniad fydd nodi safleoedd i'w dyrannu at ddefnydd tir neilltuol o fewn y Cynllun, yn ogystal â'r ardaloedd hynny y dylid eu gwarchod a'u diogelu. Bydd y cam hwn hefyd o gymorth i amlinellu terfynau datblygu o amgylch aneddiadau.

4.3 Bydd y Cyngor yn cyhoeddi aseiad cyffredinol o bob safle a ystyriwyd yn rhan o'r gwaith o greu Ail GDLI diwygiedig Adneuo, yn sgil y meini prawf manwl a osodir yn y MAS. Mae'r safleoedd hyn yn cynnwys safleoedd ymgeisiol, dyraniadau tai presennol, ac unrhyw safle arall y mae'n briodol ei werthuso yn ôl y Cyngor. Bydd profformas yn cael eu darparu ar safle wedi'i ddyrannu yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr ymgynghoriad ar yr Ail GDLI diwygiedig Adneuo ar ddechrau 2023, tra bydd yr aseiad manwl ar safleoedd heb eu dyrannu ar gael ar gais.

4.4 Yn rhan o'r broses o ymgynghori ar yr Ail GDLI diwygiedig Adneuo, bydd cyfle i gyflwyno sylwadau ar safleoedd wedi'u dyrannu, a heb eu dyrannu. Bydd sylwadau'r cam hwn yn cael eu cyflwyno er ystyriaeth yn y cam Archwilio.

4.5 Mae ail gam yr aseiad wedi'i rannu'n ddwy ran: Cam 2a a Cham 2b. Ceir disgrifiad pellach o'r rhain yn yr adrannau a ganlyn.

Cam 2a - Y Gallu i Gyflenwi'r Safle a Chyfyngiadau Sylfaenol .

4.6 Cam 2a cyfyngiadau sylweddol ar sail safleoedd a aseswyd Ystyrir cyfyngiadau o bwys yn gyfyngiadau sylfaenol na ellir eu lliniaru na'u goresgyn. Ystyriwyd y cwestiynau canlynol yng Ngham 2a yr asesiad safle:

C2. A all y safle gynnwys 5 neu fwy o anheddau?

4.7 Dim ond safleoedd sy'n gallu cynnwys 5 neu fwy o dai a fydd yn symud ymlaen i Gam 2b y broses asesu safleoedd. Ni ystyrir ei bod hi'n ddoeth nodi isafswm arwynebedd safle wrth asesu'r safleoedd ymgeisiol, oherwydd gallai hynny olygu hepgor safle lle gallai fod yn realistig cynnwys 5 neu fwy o anheddau. Yn lle hynny rhoddir ystyriaeth i'r math o safle a gynigir i'w ddatblygu ac i nodweddion a ffurf y safle a'r ardal o'i amgylch.

4.8 Bydd safleoedd nad ydynt yn gallu cynnwys 5 neu fwy o dai yn cael eu harfarnu yn rhan o'r adolygiad o'r terfynau datblygu wrth baratoi'r Cynllun Adneuo.

C3. A yw'r safle oddi mewn i anheddiad a nodwyd yn Haenau 1-3 o Strategaeth a Ffafir y CDLI, neu wedi'i gysylltu'n uniongyrchol ag anheddiad o'r fath?

4.9 Bydd y Strategaeth a Ffafir a'r Ail GDLI diwygiedig Adneuo dilynol yn ystyried fframwaith aneddiadau i Sir Gaerfyrddin wedi'i rannu'n 4 haen - Prif Ganolfannau, Canolfannau Gwasanaeth, Pentrefi Cynaliadwy a Phentrefi Gwledig. Nodir yr aneddiadau sy'n perthyn i bob un o'r haenau ym Mholisi SP3 - Fframwaith Aneddiadau.

4.10 Egwyddor y fframwaith aneddiadau yw cydnabod y bydd tair haen uchaf yr hierarchaeth yn parhau i gynnwys terfynau datblygu, gan fod hynny'n ychwanegu eglurder a sicrwydd at y Cynllun. Bydd safleoedd ymgeisiol sydd wedi'u lleoli oddi mewn i Haenau 1-3 felly'n bodloni'r cwestiwn hwn yn y fethodoleg os ydynt oddi mewn i'r anheddiad neu wedi'u cysylltu'n uniongyrchol ag ef. Diffinnir cysylltiad uniongyrchol ag anheddiad fel safleoedd sydd yn ffisegol, yn swyddogaethol ac yn weledol gysylltiedig â'r anheddiad.

4.11 Pennwyd terfynau datblygu ar gyfer Pentrefi Gwledig (a ddiffinnir fel aneddiadau Haen 4) yn y gorffennol, ac mewn rhai achosion dyrannwyd defnydd tir i safleoedd. Fodd bynnag, yn y CDLI diwygiedig ystyrir y dylid cael gwared â therfynau datblygu o aneddiadau sy'n perthyn i Haen 4 a chyflwyno polisi sy'n seiliedig ar feini prawf yn eu lle. Mae Polisi HOM3 y CDLI Adneuo yn pennu'r paramedrau ar gyfer y math o ddatblygiadau a ganiateir ac yn rhoi canllawiau ar leiniau derbynol.

4.12 Yn nhermau proses y fethodoleg asesu safleoedd, ni chaiff safleoedd yn Haen 4 eu hasesu ymhellach na Cham 2a.

C4. A yw'r safle mewn parth risg llifogydd, fel y nodir ym Mapiau Cyngor Datblygu TAN 15?

Cysylltiad ag Amcan ACI: ISA4 - Ffactorau'n Ymwneud â'r Hinsawdd, ISA5 - Dŵr

4.13 Yn argraffiad cyntaf y MAS, nodwyd yn glir na fyddai'r Cyngor yn ystyried unrhyw safleoedd datblygu sy'n agored iawn i berygl sydd ym mharthau risg llifogydd C1, ac C2 fel yr amlinellir ar fapiau cyngor datblygu TAN 15 ar gyfer llifogydd. Cyfeirir hefyd at y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, a fydd yn cael ei weithredu ochr yn ochr â'r TAN15 diwygiedig ym mis Mehefin 2023. Ar hyn o bryd mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn ystyriaeth berthnasol yn nhermau cynllunio.

4.14 Mae'r Cyngor hefyd wedi cynnal Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol (ACLIS) Cam 1 er mwyn nodi effeithiau posibl y newid yn yr hinsawdd ar berygl llifogydd ar gyfer datblygiadau ar hyd eu hoes. Ni fydd safleoedd a nodir yn safleoedd lle ceir perygl llifogydd yn yr ACLIS yn mynd rhagddynt, oni ddarparwyd tystiolaeth bellach i liniaru'r perygl llifogydd, neu ddeall y ffactorau sy'n gysylltiedig â'r perygl hwnnw.

C5. A yw'r safle wedi'i lleoli o fewn neu'n union wrth ymyl unrhyw safleoedd sydd wedi'u dynodi am bwysigrwydd i gadwraeth natur?

Cysylltiad ag Amcan ACI: ISA2 - Bioamrywiaeth

4.15 Ni fydd safleoedd sydd wedi'u lleoli yn unrhyw un o'r ardaloedd allweddol a restrwyd yn symud ymlaen ymhellach drwy'r broses asesu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)
- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)
- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA)
- Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNC)
- Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNLI)
- Tir Comin neu feysydd pentref cofrestredig

4.16 Mewn perthynas â safleoedd sydd wedi'u lleoli'n rhannol yn unrhyw un o'r ardaloedd allweddol a restrwyd, byddwn yn mabwysiadu egwyddor ragofalus, ac mae'n annhebygol y bydd y safle yn symud ymlaen ymhellach drwy'r broses asesu

C6. A yw'r safle wedi'i leoli o fewn neu'n union wrth ymyl unrhyw Henebion Cofrestredig

Cysylltiad ag Amcan ACI: ISA8 - Treftadaeth Ddiwylliannol a'r Amgylchedd Hanesyddol

4.17 Ni fydd safleoedd a allai effeithio ar leoliad neu nodweddion Henebion Rhestredig neu Adefilion o Bwysigrwydd Cenedlaethol yn mynd rhagddynt. Ymgynghorir ag Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed yn rhan o'r grŵp Swyddogion Technegol, sy'n cynghori ar faterion sy'n cael effaith andwyol ar yr Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol.

Cam 2b Dadansoddiad Manwl Pellach o Safleoedd

4.18 Ar gyfer safleoedd sydd wedi mynd rhagddynt yn llwyddiannus drwy broses hidlo Camau 1 a 2a, mae'r cam nesaf yn cynnwys asesiad manwl pellach o safleoedd ar sail yr wybodaeth a gyflwynwyd ar y ffurflenni Safleoedd Ymgeisiol, ynghyd â thystiolaeth a gasglwyd gan swyddogion wrth ddesg. Yn ogystal â hyn, bydd ymweliadau safle yn cael eu cynnal i gefnogi'r broses o'u hasesu yn y cam hwn.

C7. A fyddai datblygu'r safle yn groes i egwyddorion cynllunio cyffredinol?

4.19 Mae'r egwyddorion cynllunio cyffredinol hyn yn ceisio sefydlu pa mor dderbyniol neu briodol yw datblygiad, a byddant yn ystyried a fyddai'n effeithio ar egwyddorion cynllunio craidd.

4.20 Dylid ystyried y canlynol:

- Datblygiad hirgul annerbyniol
- Datblygiad tandem annerbyniol
- Cyfuniad annerbyniol
- Datblygiad ysbeidiol annerbyniol
- Estyniad annerbyniol i'r anheddiad
- Colli ardaloedd o fannau agored cyhoeddus a thir hamdden ffurfiol.

C8. A fyddai datblygu'r safle yn arwain at effaith niweidiol ar gymeriad a lleoliad yr anheddiad neu ei nodweddion?

Cysylltiad ag Amcan ACI: ISA8 - Treftadaeth Ddiwylliannol a'r Amgylchedd Hanesyddol, ISA9 - Tirwedd

4.21 Rhoddir ystyriaeth i safleoedd ymgeisiol a gyflwynir sy'n effeithio ar dirweddau, trefluniau ac adeiladau pwysig. Dylid trin adeiladau hanesyddol, treflun a thirwedd y Sir fel ased, a'u gwarchod mewn modd cadarnhaol. Bydd safleoedd sy'n niweidio cymeriad yr anheddiad a'i nodweddion oherwydd eu graddfa, eu dwysedd a'u hamlygrwydd yn cael eu hystyried yn annerbyniol. Rhoddir ystyriaeth i Warchodfeydd Natur Lleol (GNL), neu Safleoedd Daearegol/Geomorffaid Pwysig Rhanbarthol (RIGS) ac i Rwydwaith y Seilwaith Gwyrdd.

C9. A fydd y cynnig yn cynnwys aildefnyddio tir/adeiladau addas a ddatblygwyd o'r blaen?

Cysylltiad ag Amcan ACI: ISA7 – Pridd, ISA9 - Tirwedd

4.22 Lle bo modd, dylid defnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen (a elwir hefyd yn dir llwyd) o flaen safleoedd maes glas. Mewn aneddiadau, dylid ystyried fel arfer fod tir o'r fath yn addas i'w ddatblygu'n briodol os bydd ei aildefnyddio yn hyrwyddo egwyddorion cynaliadwyedd a bod modd goresgyn unrhyw gyfyngiadau. Cydnabyddir, fodd bynnag, nad yw'r holl dir a ddatblygwyd o'r blaen yn addas i'w ddatblygu. Gallai'r rhesymau am hyn gynnwys, er enghraifft, ei leoliad anghynaliadwy, presenoldeb rhywogaethau gwarchoddedig neu gynefinoedd gwerthfawr neu dreftadaeth ddiwydiannol, neu'r ffaith bod y tir yn halogedig iawn. Ar gyfer safleoedd fel y rhain, gallai fod yn briodol sicrhau eu bod yn cael eu hadfer er cadwraeth natur, er eu gwerth o ran amwynder neu i leihau'r risgiau i iechyd dynol. Gallai achosion godi lle na fydd hi'n bosibl datblygu defnyddiau sensitif ar dir a ddatblygwyd o'r blaen heb osod cyfyngiadau diangen ar fusnesau a gweithgareddau presennol cyfagos sydd angen y lleoliad neilltuol hwnnw.

C10. A yw'r safle'n hygyrch o'r briffordd gyhoeddus bresennol?

4.23 Bydd angen i Safleoedd gynnwys mynediad i'r briffordd gyhoeddus bresennol. Mewn lleoliadau lle nad oes cyswllt â'r briffordd, bydd yn rhaid ystyried hyfywedd darparu'r seilwaith a fydd yn galluogi datblygu.

C11. A oes mynedfa ar gael i'r safle sy'n cynnig gweledd digonol?

4.24 Rhoddir ystyriaeth i addasrwydd mynediad i gerbydau i'r safle ac ohono. Drwy hynny, canolbwyntir ar yr effaith bosibl ar y rhwydwaith priffyrdd a lefel y cyfyngiadau wrth sicrhau mynedfa dderbyniol, o ran a fydd angen mynedfa newydd neu wella'r fynedfa bresennol fel bo modd datblygu'r safle. Defnyddir y rhan hon o'r asesiad hefyd i nodi a fydd angen gwybodaeth ychwanegol fel Asesiad Effaith Traffig (i'w ddarparu gan y sawl sy'n cynnig y Safle Ymgeisiol) er mwyn cynnal arfarniad llawn o'r safle. Caiff costau creu pwynt mynediad hefyd eu hystyried yn rhan o hyfywedd darparu'r safle.

C12 A nodwyd unrhyw faterion priffyrdd o bwys yn gysylltiedig â'r safle, a thystiolaeth o hynny?

4.25 Ystyrir effaith y cynllun ar rwydweithiau priffyrdd lleol neu ehangach na lleol. Bydd safleoedd, yn rhinwedd eu graddfa neu ddwysedd posibl, yn cael eu hystyried yn erbyn y meini prawf hyn, ac ni fydd unrhyw safleoedd sy'n cael effaith niweidiol ar y rhwydwaith priffyrdd yn mynd rhagddynt.

4.26 Ar gyfer safleoedd sydd wedi'u cynnwys ar restr fer i'w hystyried fel dyraniadau neu i'w cefnogi drwy newid terfynau datblygu, ymgynghorwyd â swyddogion priffyrdd a gofyn iddynt ddarparu sylwadau manwl.

C13. A yw'r safle yn cynnig mynediad addas i drafnidiaeth gyhoeddus ac/neu lwybr teithio egnïol?

Cysylltiad ag Amcan ACI: ISA3 - Ansawdd yr Aer, ISA4 - Ffactorau'n Ymwneud â'r Hinsawdd, ISA6 - Asedau o Bwys, SA12 - Iechyd a Llesiant, SA13 - Addysg a Sgiliau, SA15 - Gwead Cymdeithasol

4.27 Mae canllawiau cynllunio cenedlaethol yn amlygu pwysigrwydd sicrhau bod gan ddatblygiadau newydd fynediad at ystod o wasanaethau, cyfleusterau a chyfleoedd cyflogaeth, y gall cymunedau presennol hefyd gael mynediad atynt. O ganlyniad i hyn, rhoddir ystyriaeth hefyd i'r pellteroedd cymharol i gyfleusterau presennol, safleoedd trafnidiaeth gyhoeddus, a mynychder gwasanaethau. Yn ail bydd rhwyddineb mynediad ar droed ac ar feic i wasanaethau allweddol fel ysgolion cynradd, meddygfeydd a siopau lleol hefyd yn cael ei asesu.

C14. A oes gan y safle fynediad at fannau gwyrdd a chyfleusterau hamdden sydd o fewn pellter rhesymol?

Cysylltiad ag Amcan ACI: ISA12 - Iechyd a Llesiant, ISA15 - Gwead Cymdeithasol

4.28 Rhoddir ystyriaeth i leoliad y datblygiad a gynigir yn sgil y safonau a osodwyd yn Darparu Mannau Gwyrdd Naturiol, Mannau Chwarae a Mannau Agored Cyhoeddus. Os na fydd safleoedd wedi'u lleoli'n agos (fel y nodir yn PSD8), yna bydd angen ystyried darparu manau gwyrdd neu agored newydd (neu wella rhai presennol) (yn ddibynnol ar y math o ddarpariaeth sydd eisoes ar gael).

C15. A yw'r safle yn agos at a) ddarpariaeth cyflogaeth, b) darpariaeth manwerthu ac c) gwasanaethau a chyfleusterau eraill?

Cysylltiad ag Amcan ACI: ISA6 - Asedau o Bwys, ISA10 - Poblogaeth, ISA14 - Yr Economi, SA15 - Gwead Cymdeithasol

4.29 Rhoddir ystyriaeth i gynaliadwyedd safle o ran ei agosrwydd at wasanaethau a chyfleusterau cyflogaeth / manwerthu. Ni fydd safleoedd heb gysylltiadau na mynediad addas, yn cael eu hystyried yn ffafriol.

C16. A yw'r safle o fewn pellter rhesymol at gyfleusterau addysg?

Cysylltiad ag Amcan ACI: ISA13 - Addysg a Sgiliau

4.30 Rhoddir ystyriaeth i gynaliadwyedd safle o ran ei agosrwydd at gyfleusterau/darpariaeth addysg. Ni edrychir yn ffafriol ar safleoedd heb gysylltiadau neu fynediad addas, yn enwedig mewn perthynas â Chwestiwn 13 y MAS.

C17. A yw'r safle wedi'i leoli o fewn neu'n agos at lain glustogi mwynau?

Cysylltiad ag Amcan ACI: ISA6 - Asedau o Bwys

4.31 Defnyddir lleiniau clustogi i ddarparu ardaloedd amddiffynnol o amgylch gwaith mwynau a ganiateir. Yn yr ardaloedd hyn bydd datblygiadau newydd a fyddai'n sensitif i effeithiau andwyol, gan gynnwys datblygiadau preswyl, yn cael eu hatal.

C18. A yw'r safle wedi'i leoli o fewn neu'n agos at Ardal Diogelu Mwynau

4.32 Mae Ardaloedd Diogelu Mwynau yn diogelu adnoddau mwynau a nodwyd, sydd â'r potensial i fod o bwysigrwydd economaidd, o ddiffwrwytheiddio diangen. Mae'r adnodd mwynau a nodwyd eisoes wedi'i ddiheintio i raddau helaeth pan fydd o fewn 200m i ddatblygiad sensitif.

Cysylltiad ag Amcan ACI: ISA6 - Asedau o Bwys

C19. A yw'r safle oddi mewn i Ardal Rheoli Ansawdd yr Aer, neu yn ymyl ardal felly?

Cysylltiad ag Amcan ACI: ISA3 - Ansawdd yr Aer

4.33 Ar hyn o bryd mae gan y Sir dair Ardal Rheoli Ansawdd yr Aer ddynodedig, a bydd unrhyw safle a gynigir sy'n cael effaith andwyol ar yr ardaloedd hynny yn cael ei ystyried yn fanylach.

4.34 Er mwyn ystyried safleoedd ar y rhestr fer fel dyraniadau, neu fel safleoedd i'w cefnogi drwy newid terfynau datblygu, ymgynghorwyd ag Ymarferwyr Iechyd Amgylcheddol y Cyngor, a gofyn iddynt roi sylwadau manwl.

C20. A yw'r safle yn cynnwys pridd carbon uchel e.e. mawnogydd?

Cysylltiad ag Amcan ACI: ISA7 - Pridd

4.35 Mae mawnogydd o fudd sylweddol er cadwraeth natur, ac yn aml yn bwysig am eu budd archaeolegol hefyd. Maent hefyd yn creu sinc carbon ac adnoddau y dylid eu gwarchod a'u cadw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

C21. A yw'r safle'n cynnwys tir amaethyddol o ansawdd uchel (gradd 1, 2, 3a)?

Cysylltiad ag Amcan ACI: ISA7 - Pridd

4.36 Tir amaethyddol graddau 1, 2 a 3a fel y nodir o fewn y Mapiau Dosbarthiad Tir Amaethyddol yw'r rhai gorau a mwyaf amlbwrrpas. Ni chaiff tir yng ngraddau 1, 2 a 3a ond eu hystyried os oes angen tra phwysig am y datblygiad, ac naill ai nad oes tir a ddatblygwyd o'r blaen neu dir o'r graddau amaethyddol is ar gael, neu fod gwerth amgylcheddol i'r tir o'r graddau amgylcheddol is sydd wedi'i gydnabod drwy ddyndiad tirwedd, bywyd gwylt, hanesyddol neu archaeolegol sydd yn gorbwysu'r ystyriaethau amgylcheddol.

C22. A yw'r safle wedi'i leoli o fewn neu'n union wrth ymyl unrhyw Safleoedd Daearegol a Geomorffaid Pwysig Rhanbarthol?

Cysylltiad ag Amcan ACI: ISA9 – Tirwedd

4.37 Mae Safleoedd Daearegol a Geomorffaid Pwysig Rhanbarthol (RIGS) (a elwir hefyd yn Safleoedd Geoamrywiaeth Pwysig Rhanbarthol) yn safleoedd dynodedig lleol o bwysigrwydd lleol, rhanbarthol, a chenedlaethol i geoamrywiaeth. Gall y safleoedd hyn ddarparu adnoddau diwylliannol, addysgol, hanesyddol ac esthetig, ac maent wedi eu gwarchod rhag cael eu datblygu fel ystyriaeth berthnasol drwy'r system gynllunio gan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

C23. A oes unrhyw bryderon sylweddol wedi'u nodi yn yr Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd - Cam 1 a allai effeithio ar gyflawni'r safle?

Cysylltiad ag Amcan ACI: ISA4 Ffactorau'n Ymwneud â'r Hinsawdd, ISA5 Dŵr

4.38 Mae'r Cyngor wedi cynnal Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol (ACLIS) Cam 1 er mwyn llywio a chefnogi'r broses o ddethol safleoedd. Mae Cam 1 yr ACLIS yn astudiaeth gwmpasu lefel uchel a fydd yn darparu gwybodaeth am lefel a natur y perygl llifogydd ar y safleoedd ymgeisiol a gynigir, ynghyd â dyraniadau presennol y CDLI fel bo'n briodol.

4.39 Cafodd y perygl llifogydd ar gyfer pob safle ei gynnwys naill ai yn y categori Coch (Perygl Uchel), Ambr (Perygl Canolig/Uchel), Melyn (Perygl Canolig) neu Wyrdd (Perygl Isel). Roedd hyn yn seiliedig ar yr arwynebedd lle ceir llifogydd ar bob safle. Nodwyd prif ffynhonnell llifogydd ar bob safle hefyd. Defnyddiwyd rhagdybiaethau ar raddfa eang i asesu effeithiau posibl y newid yn yr hinsawdd ar berygl llifogydd i ddatblygiadau ar hyd eu hoes.

4.40 Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin hefyd wedi cynnal Cam 1b yr ACLIS sy'n adeiladu ar ganfyddiadau Cam 1 yr ACLIS, ac yn edrych yn fanwl ar Safleoedd Ymgeisiol dethol a'r safleoedd sydd wedi'u dyrannu ar hyn o bryd yn y CDLI yn Llanelli, Porth Tywyn a'r ardaloedd oddi amgylch. Mae pedwar safle Sipsiwn a Theithwyr o fewn yr un rhanbarth hefyd wedi cael eu hystyried.

C24. A oes cysylltiad dŵr ar gael ar y safle?

4.41 Bydd safleoedd yn cael eu hasesu o ran argaeledd cysylltiadau dŵr. Yn ddieithriad, bydd hi'n costio swm sylweddol i gysylltu safleoedd sydd ymhell oddi wrth gysylltiad hyfyw, a byddai angen i ofyniad i uwchraddio i unrhyw system neu gysylltiadau gydymffurfio â chwestiynau 28 a 29 o'r MAS sy'n gysylltiedig â hyfywedd a graddfeydd amser datblygiadau newydd.

C25. A yw'r safle mewn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) sensitif i ffosffad neu'n agos at un?

Cysylltiad ag Amcan ACI: ISA2 – Bioamrywiaeth, ISA5 – Dŵr, ISA7 – Pridd

- 4.42 Rhoddir ystyriaeth hefyd i gapasiti'r gwaith Trin Dŵr Gwastraff, canllawiau ffosffad Cyfoeth Naturiol Cymru a dalgylchoedd ACA sy'n sensitif i ffosffad, a'r modd y mae'n cysylltu â Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf Dŵr Cymru.
- 4.43 Yn ddieithriad, bydd hi'n costio swm sylweddol i gysylltu safleoedd sydd ymhell oddi wrth gysylltiad hyfyw, a byddai angen i ofyniad i uwchraddio i unrhyw system neu gysylltiadau gydymffurfio â meini prawf 28 a 29 sy'n gysylltiedig â hyfywedd a graddfeydd amser datblygiadau newydd.
- 4.44 Yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru, mewn dalgylchoedd ACA nad ydynt yn cyrraedd targedau ffosfforws, mae'n bosibl y gellir caniatáu datblygiad newydd os oes modd dangos na fydd yn arwain at ddirywiad pellach yn ansawdd y dŵr yng nghyrrff dŵr yr ACA sy'n methu cyrraedd y targedau, ac na fydd yn tanseilio gallu'r ACA i gyflawni ei hamcanion cadwraeth. Gellir cyflawni hyn os yw'r datblygiad arfaethedig:
- heb fod yn ffynhonnell ffosfforws, neu'n;
 - ffynhonnell ffosfforws ond nad oes llwybr iddo fynd i mewn i amgylchedd afon ACA, neu;
 - fod mesurau sy'n gysylltiedig â datblygiad penodol ar waith fel y gellir cyflawni niwtraliaeth faethol, ac nad yw'r datblygiad yn arwain at gynnydd net mewn ffosfforws sy'n dod i mewn i amgylchedd afon ACA.
- 4.45 O ran safle sydd wedi'i leoli y tu allan i ddalgylch ACA sensitif i ffosffad sydd wedi methu cyrraedd y targedau, rhaid dilyn egwyddor ragofalus ar gyfer y safleoedd hynny a wasanaethir gan Waith Trin Dŵr Gwastraff cyhoeddus sydd heb hyblygrwydd maethol (h.y. sy'n llawn), yn ogystal â'r safleoedd hynny nad oes ganddynt ddarpariaeth ddigonol ar gyfer system trin carthion preifat sy'n cydymffurfio.

C26. A oes gan y safle gysylltiadau â gofynion seilwaith eraill?

- 4.46 Dylid ystyried effaith gofynion eraill yn gysylltiedig â seilwaith ar ddatblygiad o ran eu costau. Er na fyddai safle yn cael ei ddiystyru ar sail hyn yn unig, rhoddir ystyriaeth i hyfywedd y datblygiad yn ei gyfanrwydd.

C27. A oes potensial i'r lleoliad a/neu raddfa'r safle gael effaith niweidiol ar y Gymraeg?

Cysylltiad ag Amcan ACI: ISA11 - Y Gymraeg

4.47 Bydd y CDLI diwygiedig yn cynnwys polisi a fydd yn ceisio cefnogi'r Gymraeg drwy ei gwneud hi'n ofynnol i greu Cynlluniau Gweithredu Iaith neu Asesiadau Effaith Iaith. Yn y cam hwn ystyrir graddfa'r safle ymgeisiol a gynigir, a'r modd y gallai gael effaith niweidiol ar y Gymraeg

4.48 Er na fyddai safle yn cael ei ddiystyru ar sail hyn yn unig, bydd yn cael ei ystyried fel effaith gronnus, a'i gysylltu â llawer o feini prawf eraill o fewn y fethodoleg.

C28. A yw'r ymgeisydd wedi darparu digon o dystiolaeth i ddangos bod modd cyflawni'r datblygiad a'i fod yn hyfyw yn ariannol?

4.49 Gall sawl ffactor effeithio ar hyfywedd a'r gallu i gyflenwi safle. Gall y rhain, er enghraifft, gynnwys defnyddiau ffiniol amhriodol, lleiniau pridwerth, materion halogiad tir, diffyg seilwaith neu rwyddineb marchnata ardal. Mater arall pwysig i'w ystyried yw, a oes gwir angen wedi'i nodi am y math o ddatblygiad yn y lleoliad a gynigir.

4.50 Mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad hyfywedd strategol i ystyried cyfraniadau rhwymedigaeth cynllunio a phennu meincnodau ar gyfer costau datblygu o fewn y Sir. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei hystyried ar gyfer safleoedd sy'n mynd rhagddynt drwy'r broses asesu safleoedd, a bydd yn sail wrth arfarnu unrhyw ddatblygiad a gynigir.

4.51 Wrth ystyried y ffactorau hyn, ni fydd y Cyngor yn mynd rhagddo â safleoedd os yw o'r farn fod problemau sylfaenol yn gysylltiedig â'u hyfywedd.

C29. A yw'r ymgeisydd wedi darparu digon o dystiolaeth i nodi pryd y caiff y safle ei gyflwyno i'w ddatblygu?

4.52 Yn rhan o sylfaen dystiolaeth y CDLI, mae'n ofynnol i'r Cyngor ddarparu trywydd tai er mwyn nodi pryd y mae safleoedd yn debygol o gael eu dwyn ymlaen dros gyfnod y Cynllun.

4.53 Wrth gyflwyno, dylai hyrwyddwyr tir fod wedi nodi'r raddfa amser fwriedig ar gyfer datblygu'r safle. Mae hyn yn cynnwys trafodaethau cyn ymgeisio, y raddfa amser i'r cais fynd drwy'r broses gynllunio a'r amser a gymerir i gychwyn y datblygiad. Wrth ystyried y ffactorau hyn, ni fydd y Cyngor yn symud safleoedd ymlaen os yw o'r farn fod problemau sylfaenol yn gysylltiedig â'r graddfeydd amser ar gyfer eu cyflenwi.

5. Cam 3 - Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

5.1 Pwrpas yr ACI yw asesu'r holl opsiynau 'rhesymol' fel safleoedd datblygu i'w cynnwys yn y cynllun. Wrth asesu safleoedd ymgeisiol, ni chaiff safleoedd ond eu hystyried yn opsiynau 'rhesymol' os ydynt yn bodloni'r holl feini prawf a nodir yng Ngham 2a (hynny yw, nad oes unrhyw gyfyngiadau sylfaenol arnynt), a lle n nodwyd unrhyw problemau sylweddol yn gysylltiedig â'r gallu i gyflenwi yng Ngham 2b. Bydd ACI wedyn yn cael ei gynnal o'r safleoedd hynny yng Ngham 3. Bydd achosion lle mae safleoedd yn cyd-fynd â'r fethodoleg ond ddim yn cael eu cymryd ymlaen, oherwydd gallai fod safleoedd digonol a mwy priodol ar gael yn yr anheddiad i ddiwallu ei anghenion tai.

5.2 Os bydd gan safleoedd ganiatâd cynllunio llawn a bod gwaith adeiladu'n mynd rhagddo / wedi'i gwblhau i raddau helaeth arnynt wrth lunio'r adroddiad Cynaliadwyedd ACI (gan gynnwys Adroddiad Amgylcheddol AAS) ar yr Ail GDLI diwygiedig Adneuo, ni ystyrir y bydd angen cynnal ACI ar eu cyfer. Bryd hynny ni fydd modd i'r ACI gynnig rhyw lawer o werth ychwanegol, gan fod y safle eisoes yn cael ei ddarparu dros gyfnod y cynllun.

5.3 Heblaw am yr uchod, bydd yr holl safleoedd sy'n cael eu dyrannu yn y Cynllun, ynghyd â'r dewisiadau amgen rhesymol hynny, yn destun ACI, ac yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad ACI ar yr Ail GDLI Diwygiedig Adneuo.

5.4 Bydd Cam 3 hefyd yn cynnwys sgrinio pob dyraniad posibl er mwyn canfod unrhyw effeithiau sylweddol tebygol (yn unigol ac mewn cyfuniad) ar unrhyw Safleoedd Ewropeaidd. Cydnabyddir mai'r Cyngor yw'r Awdurdod Cymwys yn yr achos hwn, felly mae ei gyfrifoldebau yn nhermau Rheoliadau Cynefinoedd yn rhan hanfodol o'r broses asesu safleoedd.

5.5 Mewn perthynas â cham y CDLI Adneuo, mater i'r Cyngor fydd creu Cynllun na fydd yn cael rhyw lawer o effaith (ar ei ben ei hun nac mewn cyfuniad) ar y Safleoedd Ewropeaidd. O ran hyn, bydd yn rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ei gynigion (gan gynnwys safleoedd) fel y'u nodir yn y CDLI Adneuo yn cael eu hadolygu yn erbyn Adroddiad yr ARhC (os na chesglir yn yr ymarfer sgrinio cychwynnol cyn adneuo nad oes unrhyw effaith bosibl).

5.6 Bydd ARhC o safleoedd yn cael ei gofnodi yn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yr Ail GDLI Diwygiedig Adneuo.

6. Defnyddiau Tir Eraill

6.1 Ym mwyafrif yr achosion, cynigion ar gyfer tai fydd y safleoedd ymgeisiol a gyflwynir. Mae'r Cyngor yn cynnig mabwysiadu'r ymagwedd hon ar gyfer mathau eraill o ddefnyddiau tir a gynigir ar gyfer safle ymgeisiol.

Cynigion Cyflogaeth a chynigion Defnydd Cymysg

6.2 Bydd cynigion am safleoedd cyflogaeth newydd, neu am safleoedd defnydd cymysg sy'n cynnwys cyflogaeth (a di-breswyl), yn cael eu hystyried ymhellach yn gysylltiedig â lefel y tir cyflogaeth sydd ei angen er mwyn cyflawni Strategaeth y CDLI ac ar sail yr wybodaeth yn Adolygiadau Cyflogaeth Blynyddol Sir Gaerfyrddin.

6.3 Mae'r profforma ar gyfer safleoedd cyflogaeth a chynigion defnydd cymysg (di-breswyl) yn wahanol i'r profforma preswyl gan fod Cwestiwn 14 yn gofyn a yw'r safle o fewn pellter rhesymol i ardaloedd o boblogaeth a thai? Yn ogystal, mae cwestiwn 15 a chwestiwn 16 wedi'u dileu gan nad ydynt yn berthnasol i'r mathau hyn o ddatblygiadau.

Cynigion Manwerthu

6.4 Bydd y broses dewis safleoedd ar gyfer safleoedd manwerthu yn rhoi sylw i unrhyw astudiaethau manwerthu neu astudiaethau eraill a luniwyd gan neu ar ran y Cyngor, a'r asesiad cymalog o safleoedd yn gysylltiedig â chanolfannau manwerthu, fel yr amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru.

Cynigion Cyfleusterau Cymunedol

6.5 Asesir cynigion Cyfleusterau Cymunedol, gan gynnwys mannau agored/gwyrdd a chaeau chwarae gyda chyfarpar ar sail yr angen am y cyfleuster ac/neu a yw'r cynigydd yn gallu rhoi tystiolaeth gref o'r gallu i'w cyflenwi e.e., mae'r cynigydd yn berchen ar y tir neu mae ffynhonnell o gyllid wedi'i nodi.

Cynigion Mwynau a Gwastraff

6.6 Bydd safleoedd ymgeisiol ar gyfer mwynau a gwastraff yn cael eu hasesu yn erbyn y cynlluniau Gwastraff ac/neu Fwynau Rhanbarthol, ynghyd ag unrhyw ofynion a nodwyd yn lleol. Rhoddir sylw i'r polisi mwynau cenedlaethol wrth asesu safleoedd ymgeisiol sy'n debygol o amharu ar adnoddau mwynol.

Safleoedd i'w gwarchod rhag Datblygu

6.7 Bydd y broses Safleoedd Ymgeisiol hefyd yn cael ei defnyddio i dynnu sylw at safleoedd a ddylai gael eu gwarchod rhag datblygu arnynt ac, yn bwysig, pam bod y tir yn teilyngu gwarchodaeth na nodwyd yn flaenorol yn y CDLI mabwysiedig. Rhagwelir y bydd y safleoedd hyn yn cael eu hasesu i weld a ydynt yn bodloni'r meini prawf perthnasol i'w dynodi felly, gan ystyried Polisi Cynllunio Cymru.

6.8 Ni ddylid ond gwarchod tir rhag cael ei ddatblygu os yw hynny'n angenrheidiol ac yn briodol ar sail egwyddorion cynllunio cadarn, yn hytrach nag er mwyn gwahardd datblygiad yn unig.

6.9 Nid yw'r rhestr defnyddiau uchod yn hollgynhwysol, ac ni all y MAS ddarparu ar gyfer pob senario. Bydd unrhyw ddefnyddiau a gynigir nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr uchod yn cael eu hasesu ar sail eu rhinweddau unigol, gan ystyried y polisi cynllunio lleol a chenedlaethol diweddaraf ac, os oes angen, drwy ymgynghori â'r sefydliadau perthnasol.

Grŵp Swyddogion Technegol

6.10 Mae Grŵp Swyddogion Technegol (GST) o ymgynghoreion sy'n cynnwys swyddogion yr Awdurdod a phartneriaid allanol (gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru ac Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed) wedi cael ei sefydlu i gefnogi a chyfrannu at y broses o greu'r cynllun. Prif swyddogaeth y grŵp hwn fel ymgynghoreion oedd sgrinio neu ystyried safleoedd ymgeisiol i'w cynnwys yn y CDLI. Mae'r grŵp a'i aelodau wedi cael cyfle i gynnig sylwadau a chodi materion ar ystod o ddarpar safleoedd, ac roedd y sylwadau a ddaeth i law yn rhan bwysig o'r broses o ystyried safleoedd.

7. Beth fydd yn digwydd nesaf?

7.1 Bydd y Cyngor yn cyhoeddi asesiad cyffredinol o bob safle ymgeisiol, a asesir ar sail y meini prawf manwl a nodwyd yn y MAS. Bydd profformas yn cael eu darparu ar safleoedd wedi'u dyrannu yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr ymgynghoriad ar yr Ail GDLI diwygiedig Adneuo ar ddechrau 2023, tra bydd profforma safle ar gyfer safleoedd heb eu dyrannu ar gael ar gais fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth.

7.2 Yn rhan o'r broses o ymgynghori ar yr Ail GDLI diwygiedig Adneuo, bydd cyfle i gyflwyno sylwadau ar safleoedd wedi'u dyrannu, a heb eu dyrannu. Bydd sylwadau yn y cam hwn yn cael eu cyflwyno er ystyriaeth yn y cam Archwilio, yn unol â'r isod.

Archwilio'r CDLI

7.3 Bydd yr Ail GDLI diwygiedig Adneuo, y dogfennau Strategaeth a Ffeirir Cyn-adneuo, ynghyd â'r holl ymatebion a dderbynnir yn cael eu cyflwyno i'w harchwilio a byddant yn cael eu hystyried gan Arolygydd Cynllunio annibynnol.

Gwybodaeth Bellach

7.4 Am gymorth pellach ar broses y Fethodoleg Asesu Safleoedd neu broses y CDLI yn gyffredinol, ewch i wefan y Cyngor (gweler y dolenni i Cynllunio > Polisi Cynllunio) neu anfonwch e-bost at forward.planning@sirgar.gov.uk neu cysylltwch â'r Adain Blaen-gynllunio ar 01267 228818.